

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Medi 13eg 2016 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Davies (cadeirydd), Geraint Jones, Gwilym Davies, Gwynedd Jones, Arwel Davies, Euros Puw, Gwynfryn Williams, Rhys Richards, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jean Roberts.

Croesawyd Huw Antur i'r cyfarfod a chafwyd cyflwyniad a'r waith a chyfrifon y Bartneriaeth a Pum Plwy Penllyn. Eglurwyd hefyd eu cynlluniau i geisio am arian i adnewyddu llawr uchaf yr Henblas. Diolchwyd i Huw am fynychu'r cyfarfod.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Datgan Buddiant.

Datganodd Arwel ei fuddiant yng nghais cynllunio Rhos Fedw, Parc a ni chymerodd rhan yn y drafodaeth.

i) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Maes Parcio Y Plase.

Cafwyd cadarnhad gan Gyngor Gwynedd bod eu swyddogion wedi ail ymweld â'r maes parcio ac wedi gosod arwyddion ychwanegol i gyfeirio'r defnyddwyr i'r manau perthnasol.

b) Binau Halen.

Ym mis Gorffennaf roedd y Bartneriaeth wedi gwahodd y Cyng. John Wyn Jones draw at y cynghorau i drafod y bwriad i godi tal ar y Cynghorau Cymuned i ail lenwi'r binau halen. Nid oedd wedi ymateb yn nol i'r llythyr.

c) Mabwysiadu Rheoliadau Ariannol.

Cytunwyd i fabwysiadu'r diweddariad i'r rheoliadau ariannol.

ii) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn.

i) Cofnodion y cyfarfod blynyddol, 21/7/16.

b) Parc Cenedlaethol Eryri.

i) Parc Cenedlaethol Eryri - Adolygu Cynllun Datblygu Lleol - Derbyniwyd gwybodaeth am eu proses adolygu a chais am wybodaeth am dir ychwanegol i ddiwallu anghenion datblygu'r Parc Cenedlaethol ar gyfer y 15 mlynedd nesaf. Cytunwyd i arddangos y wybodaeth yn y neuaddau lleol.

c) Amrywiol

i) Cymru'n Cofio – gwybodaeth am y digwyddiadau i goffau canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru.

ii) Swyddfa Archwilio Cymru – Copi o'r 'Cynllun Ffioedd 2017-18'.

iii) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

i) NP5/72/239 - Adeiladu ty fforddiadwy. Tir ger Rhos Fedw, Parc.

ii) NP5/72/183C - Trosi ysgubor i ffurfio estyniad i'r ty, Cefn Bodig, Parc.

iii) NP5/72/81A - Dymchwel a chodi garej newydd. Arfoel, 7 Cae Gwyn, Rhyduchaf.

iv) NP5/72/238 – Codi estyniad ochr deulawr. 3 Cae Gwyn, Rhyduchaf.

Gan fod angen ymateb cyn y cyfarfod i geisiadau i) i iv) roedd y cler wedi cysylltu â'r cynghorwyr i drafod y ceisiadau. Cytunwyd i gefnogi holl geisiadau ac anfon llythyr o gefnogaeth i gais Rhos Fedw gan bwysleisio'r pwysigrwydd i gael tai fforddiadwy i bobl leol.

Cafwyd cadarnhad bod y ceisiadau canlynol wedi cael eu caniatáu:-

NP5/72/161D - Dymchwel allandy, codi estyniad a throsi allandy i 2 uned llety gwyliau a gosod tanc septig newydd. Tyn y Ffordd, Rhyduchaf.

NP5/72/183C - Trosi ysgubor i ffurfio estyniad i'r ty, Cefn Bodig, Parc.

NP5/72/81A - Dymchwel a chodi garej newydd. Arfoel, 7 Cae Gwyn, Rhyduchaf.

Cafwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei wrthod:-

NP5/72/237A - Cais ol-weithredol ar gyfer garej a storfa gardd. 8 Tai Rhos, Parc, Y Bala.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i yrru llythyr yn gwrthwynebu penderfyniad yr adran gynllunio gan fod adeilad wedi bod yn bresennol ar y safle ers i'r tai cael eu codi yn 1950au.

iv) Materion Ariannol.

a) Derbyniwyd ail randal y Praesept, £1650 ac ad-daliad TAW o £16.

b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) TWE

ii) Cwmni Pum Plwy Penllyn

v) Materion lleol.

Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

a) Car wedi cael ei adael yn y gilfan ger Cae'r Garnedd ers rhai wythnosau ac nid unrhyw olwg o'r perchennog.

2) Teiars lori wedi cael ei gadael yn y gilfan rhwng Pant Llwyni a Rhydyfen, Arenig.

3) Canghennau yn dod drosodd i'r ffordd ac angen eu torri ger y Fedw a Cynythog, Parc.

4) Wrth i ochrau'r ffyrdd cael eu torri roedd pridd wedi disgyn i lawr a tagu'r ffosydd rhwng Ffridd Isa a Groeslon, Maesywaen ac ar y ffordd lawr i gyfeiriad pont Pensarn.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos
Fawrth, Hydref 11eg yn Neuadd
Maesywaen am 8.00y.h.**